

ASTUDIAETH ACHOS:

# Ynni Niwclear Cryno, Fforddiadwy



NATIONAL NUCLEAR  
LABORATORY



ATKINS  
Member of the SNC-Lavalin Group

an  
assystem

wood.



## GWYBODAETH ALLWEDDOL

### SAFLE:

Safleoedd niwclear  
presennol y Deyrnas  
Unedig

### GWERTH Y PROJECT:

£52bn Y Deyrnas Unedig,  
£250bn yn fyd-eang

### AMSERIAD/HYD Y PROJECT:

2019-2050

## Trosolwg o'r project

**Mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, creu 40,000 o swyddi rhanbarthol yn y Deyrnas Unedig.**

Mae consortiwm o ddoniau gorau'r maes ynni niwclear, rhai sydd â phrofiad o brojectau seilwaith a thechnoleg gweithgynhyrchu yn creu gorsaf ynni niwclear gryno, fforddiadwy y gellid mynd ati i'w defnyddio'n gyflym rhag y newid yn yr hinsawdd. Trwy weithio ochr yn ochr ag ynni adnewyddadwy, gallai fod yn ganolbwynt i systemau ynni digarbon ledled y byd, gan ddarparu trydan a gwres i gartrefi, trafndiaeth a busnesau, a darparu pŵer ar gyfer cynhyrchu tanwydd amgen cynaliadwy.

## Manylion y datrysiad/dull gweithredu

Defnydd Fforddiadwy, Cyflym Mae sgiliau eang ein consortiwm wedi canolbwyntio ar arloesi gyda'r elfennau sy'n ymwneud â chostau projectau niwclear, sef y costau cyfalaf. Rydym wedi adolygu holl elfennau niwclear ac aniwclear dyluniad yr orsaf bŵer ac rydym wedi defnyddio technegau gweithgynhyrchu uwch, technoleg ddigidol a

dulliau meddwl amrywiol i safoni'r cydrannau, darganfod ffyrdd o gael gwared ar yr oedi sydd ynghlwm wrth y tywydd, y cyfan oll yn creu mwy o sicrwydd parthed yr amserlenni a gwella'r cyflymder enillion ar fuddsoddiadau. Yn raddol, bydd hyn yn gostwng cost pob uned hyd £1.8bn.